# y dinesydd

Medi/Hydref 2000 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 258


## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

CAERDYDD a'r Fro

**Urdd 2001**

MAI 28 - 2 MEHEFIN

**Annwyl Gyfaill**

Wrth i'r Eisteddfod yn 2001 agosáu mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol fod ymdrechion codi arian ar gyfer yr ŵyl yn cynyddu o ystyried y costau o gwmpas £1.2 miliwn sydd ynghlwm â llwyfannu'r Brifwyl.

Fel y gwelwch yn y rhifyn hwn o'r *Dinesydd* mae'r pwyllgorau apêl lleol yn ogystal â'r pwyllgorau testunau wedi bod yn brysur dros ben yn trefnu amryw o weithgareddau sydd yn ffordd o godi ymwybyddiaeth yn ogystal â chodi arian.

Yn amgaeedig yn y copi hwn o'r *Dinesydd* mae taflen rhodd cymorth sydd yn eich galluogi, pe baech yn dymuno gwneud hynny, i roi cyfraniad ariannol uniongyrchol i'r Eisteddfod. Drwy gyfrannu yn y ffordd hon byddai'r Eisteddfod yn ogystal yn medru hawlio'r dreth yn ôl gan gynyddu gwerth y cyfraniad. Gellir gwneud hyn drwy lenwi'r ffurflen archeb banc a chyfrannu yn fisol neu wneud un cyfraniad.

Os ydych yn dymuno i'r cyfraniad fynd tuag at darged un o'r pwyllgorau apêl lleol yna danfonwch y ffurflen yn ôl at y cysylltydd perthnasol (gw. y rhestr yn y rhifyn hwn o'r *Dinesydd*, t.6) neu os hoffech wneud y cyfraniad yn ganolog dychwelwch y ffurflen i'r swyddfa yn Llanelli.

Diolch yn fawr iawn.

**Deian Creunant**
*Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau*

**Atodiad yn y rhifyn hwn:**
**Cyfeiriadur i Weithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r Fro**

## Rhuban Glas Arall i Deulu


*Iona Jones ac Iwan Davies*
*Llun: Robin Griffith*

Testun balchder i Iona Jones a'i theulu oedd iddi ennill cystadleuaeth goffa David Ellis a'r Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol gynta'r mileniwm. Ar ben hynny, bu ei thad, Robin Jones, yn cymryd y brif ran yn y ddrama a enillodd y wobr gyntaf i Gwmni Drama Eglwys y Crwys yn y gystadleuaeth perfformio drama fer yn yr un Eisteddfod. Ac ar ben y cyfan, wrth ganu ar nos Sadwrn ola'r Brifwyl, cafodd Iona y fraint o berfformio o flaen amryw o gyn-enillwyr cystadleuaeth y Rhuban Glas. Yr oeddynt yno i ddathlu lansio cyfrol newydd Dr R. Alun Evans - yntau bellach yn un o drigolion yr Eglwys Newydd - ar hanes y Rhuban Glas. Yn eu plith yr oedd y tenor Iwan Davies, ewythr Iona, a enillodd y gystadleuaeth yn 1973. Fe welir y ddau ohonynt gyda'i gilydd yn y llun.

Ar ennill y Rhuban Glas yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli, 2000

Un o gyff Medal Goffa — hi ganodd
Yn gynnil ei cheincia';
Y berw hwn, hir barha
Yn enaid alaw Iona.

**Emyr Edwards**

* * *

### Llwyddiant Ymgyrch; Pwysigrwydd Parhad

Fel y gŵyr ein darllenwyr, y mae cyhoeddi'r *Dinesydd* yn dibynnu ar incwm o dair ffynhonnell, sef rhoddion gan unigolion a chymdeithasau, incwm hysbysebion a grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ynghyd wrth gwrs â gwaith cwbl wirfoddol y tîm sy'n gyfrifol am gynhyrchu a dosbarthu'r papur o fis i fis.

Er nad yw'n argyfwng arnom yn ariannol ar hyn o bryd, fe nododd ein Trysorydd diwyd, Mr Rheon Thomas, yng Nghyfarfod Blynyddol diwethaf *Y Dinesydd* fod rhywfaint o leihad yn ein hincwm yn ddiweddar, a oedd wedi ei orfodi i ddefnyddio peth o'r ychydig arian sydd gennym wrth gefn; ac fe'n rhybuddiodd, petai'r duedd yn parhau, y byddai'n argyfwng ariannol arnom cyn bo hir.

Un rheswm dros y gostyngiad mewn incwm oedd penderfyniad Cyngor y Celfyddydau ryw ddwy flynedd yn ôl i ddileu ei grantiau blynyddol bychan i'r papurau bro - penderfyniad rhyfedd iawn o gofio am gyfraniad y papurau bro i hybu gweithgarwch celfyddydol yn eu hardaloedd a hybu darllen Cymraeg yn gyffredinol, ond penderfyniad a wnaed heb fawr o sylw yn cael ei dynnu iddo na phrotestio yn ei erbyn. Yn achos *Y Dinesydd*, yr oedd y grant a gollwyd gan y Cyngor yn ddigon i dalu costau argraffu un rhifyn o'r papur. Ond ar ben colli'r grant hwnnw, bu hefyd ychydig o leihad yn ddiweddar yn y rhoddion

Parhad ar dud. 3

# Y Dinesydd

**Medi/Hydref 2000, Rhif 258.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

### NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Tachwedd erbyn 26 Hydref at un o Olygyddion Rhifyn Tachwedd:**
Mr Gwilym E. Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbina, Caerdydd (Ffôn: 2069 3254) **neu**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Rd, Penarth, (Ffôn: 2070 8253)
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754).

### DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

### HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270; E-bost: MennaGwyn@aol.com)

### CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .
**0845 6076070**
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

### FFURFLEN CYFRANNU


Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.
Enw: ..........................................................................
Cyfeiriad: ..........................................................................
.............................................. Cod Post: ..................
Rhif Ffôn: ..........................................................................
Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

### FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.
Enw: ..........................................................................
Cyfeiriad: ..........................................................................
.............................................. Cod Post: ..................
Rhif Ffôn: ..........................................................................
Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 18** **Medi/Hydref 2000**



**Ar Draws**

1. A oes adenydd i'r llog a ges? (7)
5. Creadur mympwpyol (5)
8. Glaw mân yn troi'n orfoledd i ganu amdano (7)
9. Pa fodd y denir sarff? (5)
10. Eglwys i bum cant hwyrach yn y canolbarth (9)
12. Pwff o wynt yn dechrau chwythu Wil ataf (3)
13. '____ oddi wrth euogrwydd,
____ o ofnau'r bedd' W.W. (5)
17. Trem ar anifail tawel (3)
19. Er yn wan ŵr rywfodd codaf i'r entrychion! (9)
21. Talwn drwy gyfnewid am lain werdd (5)
22. 'Aeth clychau Cantre'r _____
O'r golwg dan y dŵr.' (J.J.W.) (7)
24. Sefydlu rhywbeth ffug (5)
25. '___ Magdalen yn ddisglair
A Manasse ddu yn wyn.' (W.M.) (7)

**I Lawr**

1. 'Mae Craig yr Oesoedd dan fy nhraed
___ ___ yn diffodd yn y gwaed' (W.J.) (1'1, 4)
2. Gŵr amheus a gwn gwag o dras sy'n cwyno (7)
3. Mae'r tâl am fenthyg yn gwneud imi ddechrau llamu o gwmpas (3)
4. Ceg enfawr yn dal darn o ffrwyn (5)
5. Dere cyn hir heb Robin i grwydro lle bu glo (9)
6. Ffiaidd dwyn anfri/parch ar yn ail (5)
7. 'Clywais lawer sôn a siarad
Fod rhyw boen yn dilyn _____' (J.B.) (6)
11. Gwneud anifeiliaid mawr allan o ffetan doli (9)
14. Gwron yn gweld dryswch (3,4)
15. Canolfan addysg electronig efallai i astudio'r amgylchedd (6)
16. Llw llafur i gael benthyg arian (6)
18. A oes pwyso yn y parthau yma? (5)
20. Annog fel y Gogleddwr! (5)
23. Yn dilyn y cyntaf mewn mintai lawen (3)

**Atebion Croesair 17**

**Ar draws:** 1. Festri; 4. Egluro; 9. Bendigo; 10. Lliaws; 11. Ffydd; 12. Ddreng; 13. Nil; 15. Loes; 16. Ponc; 19. Iod; 21. Nyrs; 22. Nia; 24. Amrwd; 25. Greddfol; 26. Trysor; 27. Cernyw.

**I lawr:** 1. Fab y ffoedigaeth; 2. Seneddol; 3. Reis; 5. Gollyngdod; 6. Ugain; 7. Oes glust a glyw; 8. Torri; 14. Cernodio; 17. Cynefin; 18. Crogi; 20. Dirwy; 23. Wele.

**Enillydd Croesair Rhif 17**

Derbyniwyd dwsin o ymdrechion ond dim ond pump yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfrau at Idwal Hughes, 23 St Cadoc Road, Y Mynydd Bychan. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan: Megan Griffiths, Llys-faen; Gwenda Hopkins, Llanisien; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd ac Iona Warmington, Llandaf.

**Cystadleuaeth Medi/Hydref 2000**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 31 Hydref.

## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 3 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd: Sgwrs am gerddoriaeth gan D. Wynne Lloyd yn festri Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.

**Llun, 6 Tachwedd**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd: Noson y Boneddigesau, yng Ngwesty'r Thistle (Gwesty'r Parc), am 7.30 p.m. ar gyfer 8.00 p.m. Cysylltwch â Tony Couch (Ffôn: 2075 3625).

**Llun, 6 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Hanes Botymau' gan Hannah Roberts, yn Bethany, Rhiwbina am 7.30 p.m.

**Iau, 9 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Yr Eglwys a'r Cyfryngau' gan Emlyn Davies yn Ebeneser, Heol Siarl, am 7.30 p.m.

**Gwener, 10 Tachwedd**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Cyngerdd gan Gôr Plant Caerdydd (Arweinydd: Mrs Mair Robins), yn Bethel, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m. Casgliad at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2001.

**Llun, 13 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Cyngerdd gan blant Ysgol y Mynydd Bychan yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.00 p.m. Yr elw at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2001.

**Mercher, 15 Tachwedd**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs gan Peter Bradley, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 8.00 p.m.

**Gwener, 17 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Lady Herbert Lewis a Chanu Gwerin' gan D. Roy Saer, am 7 p.m., yn Ystafell X/0.04, Estyniad Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd.

**Sadwrn, 18 Tachwedd**
Eisteddfod Sain Ffagan, yn Sefydliad y Gweithwyr Oakdale yn yr Amgueddfa Werin, yn dechrau am 10.30 a.m. Rhaglenni a manylion pellach gan Meinwen Ruddock yn yr Amgueddfa. Ffôn: 029-2057 3427.

**Llun, 20 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Datblygu Cyffuriau Newydd' gan Dr Arfon Jones (Prifysgol Caerdydd), yn Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 21 Tachwedd**
Cymrodorion y Barri: 'Hynt a Helynt yr Iaith Gymraeg yn y Barri a'r Fro' gan yr Athro J. Gwynfor Jones, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.

*Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*
*Mae'r Calendr hefyd ar safle we'r Dinesydd: http://www.dinesydd.uklinux.net/*

**Parhad o dud. 1**
oddi wrth unigolion a chymdeithasau.

Pan glywodd Gwilym Roberts, Rhiwbina, am hyn, ymatebodd yn ei ffordd nodweddiadol frwdfrydig a diwyd, trwy gylchlythyru yn eang ymhlith cymdeithasau a mudiadau Cymraeg Caerdydd yn apelio am gyfraniadau at gynnal *Y Dinesydd*. Cafwyd ymateb calonogol iawn i'w apêl, a hyd yma derbyniwyd dros £750 o bunnoedd yn sgil ei ymgyrch. Cyhoeddir isod enwau'r cymdeithasau, mudiadau ac eglwysi a gyfrannodd yn y cyfnod ar ôl i Gwilym anfon ei lythyr, gan ddiolch iddynt oll am eu cyfraniadau, a diolch hefyd i nifer o unigolion a gyfrannodd yn yr un cyfnod.

Mae sawl un o'r cyrff a enwir isod yn anfon rhodd yn flynyddol i'r *Dinesydd*, ond yr hyn sy'n galonogol yw gweld nifer dda o enwau newydd yn eu plith. **Apeliwn arnynt hwy yn awr, ac ar gymdeithasau eraill ynghyd ag unigolion ymhlith Cymry Cymraeg Caerdydd, i ystyried rhoi yn rheolaidd yn flynyddol i waith *Y Dinesydd*, os nad ydynt yn gwneud hynny'n barod, er mwyn galluogi'r papur i barhau â'i waith o hybu bywyd Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau.**

Aelwyd Hamdden Cymry Caerydd
Mudiad Ysgolion Meithrin
Cronfa Goffa Gwyn Daniel
Tŷ'r Cymry
Côr Merched Canna
Bethel, Rhiwbina
Eglwys Undodaidd West Grove
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd
Cwmni Dawns Werin Caerdydd
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Treganna
Clwb Cinio Merched Caerdydd
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd
Acen
Côr Plant Caerdydd
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd
Cylch Llyfryddol Caerdydd
Cymdeithas Cymrodorion y Barri
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch
Cymrodorion Caerdydd

## Llongyfarchiadau

- i Siân Elizabeth Davies, Radur, ar ei phriodas â Dean Williams, Tonyrefail yn Eglwys Crist, Radur, ddydd Sadwrn, 29 Gorffennaf.
- i Dr Non Gwilym, merch Carys a'r diweddar Meurwyn Williams, ar ei phenodi yn ymchwilydd gwleidyddol gyda chwmni StrataMatrix. Bydd yn gweithio o swyddfa'r cwmni yng Nghaerdydd ac yn gyfrifol am ddatblygu PRECIS, yr arolwg o faterion Cymreig a gyhoeddir yn wythnosol ganddynt.
- i Wyn Innes ar gael ei benodi'n Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Rhyngwladol.
- i Iwan Pryce, Rhiwbina a Threganna, ac Iola Hughes, Aberystwyth a Threganna, ar eu priodas ar 30 Medi.
- i Gareth Hughes, cyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf, ar ennill gradd dosbarth cyntaf mewn cerddoriaeth yn Ngholeg Kings yn Llundain. Bu ei fam-gu, Mrs Sally Hughes, Casnewydd yn un o'r athrawesau cyntaf yn Ysgol Feithrin Rhiwbina yn 1959. Ar hyn o bryd y mae hi ei hun yn astudio ar gyfer gradd yn Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.
- i Siân (Boobier gynt) ac Iwan Huws, Y Felinheli, ar enedigaeth eu merch, Megan, chwaer i Anna Jên.
- i Huana Morgan, 95 oed, gweddw yr Athro T. J. Morgan a mam Rhodri Morgan, Prif Ysgrifennydd y Cynulliad, ar gael ei hethol yn Gymrawd Prifysgol Cymru Abertawe, lle y graddiodd yn 1927 a lle bu ei gŵr yn Athro'r Gymraeg. Bu'n byw am flynyddoedd yn Radur, pan oedd ei gŵr ar staff Adran Gymraeg Prifysgol Caerdydd.
- i Wendy ac Aled Richards, Treganna ar enedigaeth Dewi Llewelyn, eu mab cyntafanedig ar 12 Gorffennaf, ŵyr cyntaf Ken ac Eluned Richards, Aberystwyth.
- i Huw Harries, gynt o'r Eglwys Newydd, ar gael ei benodi'n gapten tîm rygbi Pen-y-bont.
- i Dafydd Du, Radio Cymru, am redeg i ben yr Wyddfa ac i lawr mewn awr a deugain munud yn Ras Flynyddol yr Wyddfa eleni.
- i Branwen Miles ac Owen Stickler ar enedigaeth eu mab cyntafanedig, Osian Llŷr yn Ysbyty Llandochau, 31 Awst.
- i Ceiri Torjussen, Rhiwbina, ar gael darn o'i waith wedi'i berfformio gan Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yng nghyngerdd nos Sul Eisteddfod Genedlaethol Llanelli.
- i Walter Ariel Brooks ar ennill gradd A yn ei arholiadau Cymraeg Uwch ar ôl astudio Cymraeg am flwyddyn a hanner yn unig. Brodor o Gomodoro Rivadavia, Ariannin, ydyw, a'i dad o dras Cymreig. Y mae

bellach wedi dychwelyd i fyw i Buenos Aires, ar ôl treulio bron i flwyddyn yng Nghaerdydd yn astudio Cymraeg yng Nghanolfan Dysgu Cymraeg Prifysgol Caerdydd ym Mhlas y Parc.
- i Alun Davies, Cyfarwyddwr Addysg Bro Morgannwg, ar ei benodi'n Gyfarwyddwr Addysg Sir Gaerfyrddin.
- i Ysgol Treganna ac Ysgol Iolo Morganwg, Y Bont-faen, ar ddod yn ail yn rownd derfynol adran gynradd cystadlaethau cenedlaethol Cyngor Llyfrau Cymru yn Aberystwyth.
- i Wendy a Simon Curtis, Kingston-on-Thames, ar enedigaeth eu mab bach, Rhodri Tomos, ŵyr i Barbara a Geraint Llwyd Williams, Llanisien.
- i Huw ac Annette Thomas, Llandaf, ar enedigaeth eu merch fach, Awen Mair.
- i Sara, merch Mr a Mrs Wyn Thomas, Cyncoed, a'i phriod Andrew Humphreys, sy'n gyfreithiwr yn y Barri, ar enedigaeth eu merch, Beth Angharad, chwaer fach i Alys Catrin.
- i Nia a Nick Bennett, Pen-y-lan, ar enedigaeth Beca Manon, chwaer i Siôn Cai.
- i Karen ac Emyr G. Roberts ar enedigaeth eu cyntafanedig, Gruffydd David.
- i Gwawr Owen, arweinydd Côr Caerdydd, a Huw Roberts ar eu priodas yng Nglynarthen, ddydd Sadwrn, 14 Hydref.

## Cydymdeimlwn

- ag Elin a Delyth a'r teulu ym marwolaeth eu tad, Evan Islwyn Prytherch.
- â Syr Goronwy Daniel a'i deulu ym marwolaeth ei wraig, Lady Valerie, wyres i David Lloyd George.
- â Teleri a Nia a'u teuluoedd ym marwolaeth eu mam, Eldra Jarman, gweddw yr Athro A. O. H. Jarman.
- â Catrin a Siân Edwards ym marwolaeth eu mam yn Ysbyty Llandochau ganol Gorffennaf.
- â Dr Kathryn Jenkins, un o ddirprwy olygyddion y Cofnod yn y Cynulliad Cenedlaethol, ym marwolaeth ei thad, Clement Parry Jenkins, Tonypandy, yn nechrau Medi.
- â Pedr McMullen a'i deulu ar golli ei fam yn niwedd Awst.
- â theulu'r arlunydd David Tinker a fu farw ar 25 Awst.
- â theulu Ll. John Andrew Cule, cyn-Gyfarwyddwr Addysg Caerdydd, a fu farw ar 30 Awst.
- â John Irfon Davies, Radur, a'i deulu ar golli ei briod, Mrs Jean Davies.
- â Mrs Ray Evans, Rhiwbina, ar golli ei brawd, Mr Ben Davies, Pen-y-bont ar Ogwr.

## Gohirio Gŵyl

Bu raid gohirio'r ŵyl, 'Dwy Fil, Dwy Iaith', a oedd i'w chynnal dan nawdd Consortiwm Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro yn Neuadd Dewi Sant ar 21 Hydref, tan rywbryd yn y flwyddyn newydd.

## Archif Tŷ'r Cymry

Yn ddiweddar casglwyd holl bapurau Tŷ'r Cymry, o 1936 hyd 1996, yn un archif a'i gosod yn Llyfrgell Prifysgol Caerdydd. Cynnwys yr archif gofnodion, cyfrifon, gohebiaeth, etc., yn ymwneud â Thŷ'r Cymry a oedd yn y Tŷ neu ym meddiant y swyddogion presennol, a byddant yn ffurfio archif werthfawr dros ben i unrhyw un a fydd am ymchwilio i hanes bywyd Cymraeg Caerdydd.

Diau fod papurau perthnasol i hanes Tŷ'r Cymry ym meddiant nifer o gyfeillion yr achos a fu'n weithgar yng nghymdeithas y Tŷ dros y blynyddoedd. Byddai Pwyllgor Tŷ'r Cymry yn ddiolchgar am wybodaeth am unrhyw ddeunyddiau perthnasol i hanes y Tŷ a'i weithgareddau. Cysyllter â'r Ysgrifennydd, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd CF24 3AJ (Ffôn: 2049 1123 neu 2062 0642).

Mae Llyfrgell y Brifysgol yn bwriadu defnyddio Archif Tŷ'r Cymry yn sylfaen i archif helaethach yn ymwneud â gweithgareddau Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau. Felly, os oes gan unrhyw un o'n darllenwyr bapurau, cofnodion, taflenni, gohebiaeth, etc., am gymdeithasau neu weithgareddau Cymraeg y byddent yn fodlon eu rhoi ar gadw mewn archif o'r fath, dylent cysylltu â Mr Peter Keelan, Llyfrgell Salesbury, Prifysgol Caerdydd neu Dr E. Wyn James, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.

## Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth

Mae rhaglen lawn wedi'i threfnu dros y gaeaf nesaf ar gyfer Cangen Caerdydd o Gymdeithas Cyn-Fyfyrwyr Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Ar 28 Hydref cynhelir Darlith Llandaf yn Ysgol Howells; y darlithydd eleni fydd Dr Colin Jenkins, cyn-brifathro Coleg Iwerydd. Yna cynhelir y Cinio Blynyddol ar 25 Tachwedd yn Adeilad Morgannwg, Parc Cathays, a'r cyfreithiwr David Morgan Jones yn siaradwr gwadd. Noson gerddorol sydd wedi'i threfnu ar gyfer 26 Ionawr yn y Coleg Cerdd a Drama, yna ymweliad â'r Cynulliad Cenedlaethol yn niwedd Chwefror, a Chinio'r Gwanwyn ddydd Sul, 11 Mawrth, yn Neuadd Goffa Rhiwbina. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Huw Price, 24 Heol Tyddyn, Caerffili CF83 1TG (Ffôn: 029-2088 8614).



*Yn y llun gwelir Rhian Williams, Elinor Charles, Owain James, Andrew Harries a Jonathan Walsh, disgyblion Blwyddyn 6 o Ysgol y Wern a enillodd rownd derfynol Cwis Diogelwch y Ffyrdd Ysgolion Cynradd Caerdydd. Llongyfarchiadau iddynt. Cefnogodd dros 50 ysgol y gystadleuaeth hon eleni.*

## Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch

Bu cynnydd yng ngwerth aelodaeth Cwlwm Busnes pan gynhaliwyd cyfarfod o'r gymdeithas yng Ngwesty Churchill's, 29 Mehefin! Cyflwynodd Meredydd Jones, Uwch Reolwr Datblygu Busnes De Cymru dros Gyfnewidfa Stoc Llundain, hanes dechreuadau'r sefydliad ac esboniodd ei swyddogaeth gyfoes. Siomwyd rhai wrth weld nad oedd Meredydd yn gwisgo un o siacedi lliwgar y broceriaid bloeddfawr - ond cawsom wybod mai diflannu wnaeth y siacedi, a thrwst y talwrn gwerthu, pan ddisodlwyd y cyfan gan gyfrifiaduron a sgriniau.

Os hoffech wybod mwy am y Gyfnewidfa, mae Meredydd, sy'n hanu o Aber-arth ond sydd yn byw yn Plymouth erbyn hyn, yn cynnig llyfryn dwyieithog, lliwgar, *Prynu a Gwerthu Cyfrannau*. Cewch gopi, neu wybodaeth arall, trwy gysylltu ag ef ar 01752 892385 neu mjones@londonstockexchange.com.

I holi am aelodaeth neu am gyfarfod nesaf y Cwlwm Busnes, cysylltwch â Ceri Preece ar (029) 2022 4871 neu cerip@hjfs.co.uk

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## BETHEL, RHIWBINA

Yn ystod y gwasanaeth, 23 Gorffennaf, cyflwynwyd tysteb i'r Parchg Pamela Cram i ddatgan ein gwerthfawrogiad o'i gofal ohonom fel Arolygydd Cylchdaith Morgannwg. Bu Mrs Cram yn Arolygydd am saith mlynedd a bellach mae hi'n gofalu am eglwysi yn ardal Treforys a Chlydach. Diolchwyd iddi hi gan Mr Eifion Hopwood sydd newydd gwblhau cyfnod o hanner can mlynedd fel pregethwr cynorthwyol.




*Y Parchg Pamela Cram gyda gweinidog Bethel, y Parchg Evan Morgan a Mr Eifion Hopwood*

Yn gynharach ym mis Gorffennaf cafwyd trip i Gastell Cyfarthfa ym Merthyr dan arweiniad Mrs Owena Hopwood. Bu'n olrhain hanes y castell a'r dref a chafwyd mwynhad mawr yn ei chwmni. Y gweinidog, y Parchg Evan Morgan, fu'n datgan ein gwerthfawrogiad.

Rydym fel eglwys yn hynod ddiolchgar i'r pedwar aelod sydd wedi cyflwyno'r llechen a osodwyd ar fur y capel, sef Iola a Hywel James, Cyncoed a Mair ac Arthur Jones, Sain Nicolas.

## EGLWYS ANNIBYNNOL GYMRAEG Y BARRI

Aeth trip yr Ysgol Sul i Barc Longleat ddydd Sadwrn, 15 Gorffennaf, a mwynhawyd y diwrnod yn fawr iawn. Ddydd Sul, 16 Gorffennaf, cawsom fel Eglwys gyfle i ddangos ein gwerthfawrogiad o waith Goronwy Williams sy'n ymddeol o'i swydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eglwys ar ôl 15 mlynedd o wasanaeth. Cyflwynwyd copi o'r *Mynegair i'r Beibl Cymraeg Newydd* iddo, a lluniwyd englynion ar ei gyfer gan Euryn Ogwen.

## TABERNACL, YR AIS

Bu sawl achos o ddathlu ymhlith aelodau'r Tabernacl dros gyfnod yr haf. Priododd Marc Jon a Rhian Elin yn y capel ar Sadwrn olaf mis Gorffennaf - mae'r ddau ohonyn nhw yn athrawon yn Ysgol Mynydd Bychan. Hefyd yn ystod yr haf fe briododd Tegid, mab Hugh a Verina Matthews, yng Nghanada - a hynny yn yr awyr agored!

Cyhoeddwyd dyweddïad Lowri Jones, merch Eirlys a Gwyn Pritchard Jones, a Paul Burleton - bydd y ddau'n priodi ar 7 Ebrill 2001 yn y Tabernacl.

Ganwyd efeilliaid, Rhys Llewelyn a Cerys Iona, i Glenys a Brenig Powell - ŵyr ac wyres newydd i Jean a Viv Evans.

Ym myd addysg bu sawl llwyddiant. Anrhydeddwyd Hugh Matthews â gradd Doethur er Anrhydedd mewn Diwinyddiaeth, enillodd Carys Burston a Martin Rhishiart (gŵr Elena) raddau M.A., a derbyniwyd Iona Hughes yn gymrawd yn y Farmington Institute yn Rhydychen.

Yn Eisteddfod yr Urdd, enillodd Lisa Thomas Dlws y Prif Gerddor, daeth Marged Jones yn gyntaf yn y gystadleuaeth linynnol dan 12 oed, a'i brawd Steffan yn drydydd yn yr adran lenyddol.

Bu'r ddau efaill, Rhys a Rhodri Thomas, yn canu yng Nghaerdydd ac ar daith gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru - a hynny fel rhan o gorws y plant yn opera Bizet, *Carmen*.

Etholwyd Ceri Preece am y drydedd flwyddyn yn olynol yn llywydd Siambr Fasnach Caerdydd.

Mae llwyddiant y bobl ifainc ym myd y campau'n dal i gynyddu. Cynrychiolodd Owain Williams ac Alys Reed eu gwlad yng Ngemau'r Mileniwm. Dyblau Cymysg Tenis oedd eu camp a braf yw nodi na chollon nhw unrhyw gêm yn ystod y bencampwriaeth - er i Gymru golli yn y diwedd. Ers hynny chwaraeodd Owain griced dros dîm bechgyn Cymru - agorodd y batio ymhob gêm a'i sgôr gorau oedd 52 o rediadau.

Cynhaliwyd Cyngerdd Haf lwyddiannus iawn yn y capel ar 14 Gorffennaf. Y rhai a gymerodd ran oedd Tim Richards, Meriel Andrew, Lois Davies a'r grŵp Curiad. Codwyd £500 yn ystod y noson.

O'r diwedd mae'r sgaffaldau wedi diflannu a'r capel yn edrych yn arbennig ar ei newydd wedd. Gwariwyd dros £40,000 ar yr atgyweiriadau angenrheidiol hyn ond bydd pawb yn sicr yn cytuno bod y gost yn werth chweil.

## EBENESER, HEOL SIARL, CAERDYDD

Llongyfarchiadau i Glesni Whettleton ar gael ei hanrhydeddu â'r MBE yn rhestr anrhydeddau'r frenhines. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd fel Ymgynghorydd Ysgolion Cynradd.

## EGLWYS Y CRWYS

Ciliodd mis Awst ond gadawodd o'i ôl waddol gyfoethog. Daeth buddugoliaeth i Iona Jones yn y gystadleuaeth am y Rhuban Glas yn y Brifwyl yn Llanelli. Bedair awr ar hugain cyn i Iona ddechrau dathlu roedd y Gymdeithas Ddrama yn cipio'r Tlws yng nghystadleuaeth perfformio drama fer. Dyma'r trydydd tro i'r cwmni yma dderbyn clod yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau i bawb. Hefyd i Jonathan Shapey a oedd yn aelod o Gerddorfa Ieuenctid Cymru a ddiddanodd gynulleidfa'r Eisteddfod yn y Pafiliwn ar y nos Wener. Trefnodd y Gymdeithas Ddrama ymweliad â chyngerdd nos Sul yr Eisteddfod. Dychwelodd bws llawn i Gaerdydd gyda'i gwpan Terfelaidd yn fwrlwm o gân. Yr un gymdeithas o fewn y capel a drefnodd hefyd y daith i Oberammergau yn yr Almaen i weld drama'r Dioddefaint. Efallai i Awst gilio ond ni chiliodd ein hatgofion am fis toreithog.



## Bwrdd Er Cof

Dadorchuddiwyd Bwrdd Cymun newydd yn Eglwys y Crwys ar 3 Medi, rhodd Delwyn Tibbott er cof am ei briod, Mrs Minwel Tibbott. Trwy gyd-ddigwyddiad hapus, yr un diwrnod derbyniwyd i gyflawn aelodaeth yn y Crwys, Annette Angharad Strauch, merch o'r Almaen a fu'n treulio llawer o amser ar aelwyd Delwyn a Minwel Tibbott ym Mhen-tyrch tra oedd yn gweithio yn yr Amgueddfa Werin yn astudio ar gyfer gradd uwch. Drannoeth ei derbyn yr oedd Annette yn dechrau mewn swydd yn yr Amgueddfa Werin, lle y bu Mrs Minwel Tibbott yn gweithio am flynyddoedd lawer.

# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

CAERDYDD
a'r Fro
**Urdd 2001**

MAI 28 - 2 MEHEFIN

Annwyl Gyfaill
Mae'r amser wedi hedfan ers i mi gadeirio'r cyfarfod cyhoeddus hwnnw yn 1998 a fu'n gyfle i wahodd Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru i Gaerdydd a'r Fro yn 2001.

Erbyn hyn mae'r Eisteddfod yn prysur agosáu ac ymhen deng mis bydd plant ac ieuenctid Cymru yn heidio i gystadlu a chymdeithasu yn y Brifwyl a leolir mewn safle delfrydol yng nghanol ein prifddinas.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae lluoedd o wirfoddolwyr wedi bod yn cynorthwyo gyda phob math o weithgareddau gan gynnwys dewis testunau, codi ymwybyddiaeth, trefnu gweithgareddau codi arian ac yn ystod y flwyddyn nesaf bydd y pwysau yn cynyddu'n aruthrol. O ganlyniad bydd angen tipyn mwy o gymorth arnom mewn amrywiaeth o feysydd.


Os ydych yn teimlo y gallwch gynorthwyo mewn unrhyw fodd byddwn yn ddiolchgar iawn o glywed gennych gan fod y baich gwaith ar hyn o bryd yn disgyn ar ysgwyddau criw bychan o wirfoddolwyr.

Cysylltwch â Helen yn y swyddfa yn Llanelli er mwyn cynnig eich gwasanaeth a gadewch i ni sicrhau y bydd yr Eisteddfod hon yn y Brifddinas a Bro Morgannwg yn ŵyl i'w chofio ar gychwyn mileniwm newydd.

*Hei dewch! mae Caerdydd ar dân*
*I'ch cyfarch. Cewch y cyfan.*

Diolch yn fawr iawn.

**Huw Llywelyn Davies**
*Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith*



## Trip yr Urdd i Disneyland Paris 2000

Am y tro cyntaf yn hanes yr Urdd cynigiwyd trip i Disneyland Paris ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 Ysgolion Uwchradd Plasmawr a Glantaf. Bu'r ymateb yn gefnogol iawn gyda tua 50 o ddisgyblion yn pacio'u bagiau a mynd am Ffrainc i weld Mickey, Goofy a'u ffrindiau.

Cafwyd diwrnod arbennig yn y parc ymysg yr atyniadau a'r reids bythgofiadwy. Gyda'r hwyr cafwyd gorymdaith yr holl gymeriadau, sioe oleuadau ac arddangosfa tân gwyllt o gwmpas y castell.

Y diwrnod canlynol cafwyd siwrnai o gwmpas prif atyniadau Paris, fel Tŵr Eiffel, Champs Elysées a l'Arc de Triomphe a chyfle i flasu baguette Ffrengig.

Yn dilyn llwyddiant y trip gobeithiwn gynnig trip tebyg y flwyddyn nesaf.

# CYSYLLTWYR PWYLLGORAU APÊL LLEOL

Y BONT-FAEN: Glenda Jones, 7 The Larches, Ystradowen, Y Bont-faen. CF71 7TT

Y BARRI: Carys Hall Evans, 8 Whitehouse Close, The Knapp, Y Barri. CF62 6FB

PENARTH A DINAS POWYS:
Alun Daniel, 2 Tudor Close, Westbourne Road, Penarth. CF64 5BR

TYLLGOED: Geraint Rees, 7 Penywaun, Efailisaf, Caerdydd. CF36 1AN.

LLANEIRWG: Mr G Evans, Y Pennaeth, Ysgol Bro Eirwg, Heol Ridgeway, Tredelerch, Caerdydd. CF3 4AB

LLANDAF A RADYR:
Eleri Jones, Ysgol Pencae, Highfields, Heol Gillian, Llandaf, Caerdydd. CF5 2QA

DE-DDWYRAIN CAERDYDD:
Ann Williams, Ysgol Mynydd Bychan, Heol Seland Newydd, Cathays, Caerdydd. CF14 3BR

GOGLEDD CAERDYDD:
Avril Gowman, 28 St George's Road, Y Mynydd Bychan, Caerdydd. CF14 4AQ

YR EGLWYS NEWYDD:
Delwyn Siôn, 49 Heol Don, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. CF14 2AS

TREGANNA: Ieuan Rhys, 1 Syr David's Avenue, Llandaf, Caerdydd. CF5 1GH

PEN-TYRCH, CREIGIAU, GWAELOD-Y-GARTH:
John Williams, Perthi Bach, Berthlwyd, Pen-tyrch, Caerdydd. CF15 9PG

TREFNYDD YR EISTEDDFOD:
Helen Wynne Daniels
Swyddfa'r Urdd, Canolfan Agenda, Stryd Y Parc, Llanelli SA15 3YE
Ffôn: 01554 880 890; Ffacs: 01554 880 891
e-bost: caerdydd2001@urdd.org




*Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro, Mai 2000*

## Côrdydd

Mae côr cymysg newydd yng Nghaerdydd ers dechrau'r flwyddyn sef CÔRDYDD! Fe'i ffurfiwyd gan nifer o gyn-ddisgyblion Glantaf a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd ac mae croeso i unrhyw un dros ddeunaw ymuno â'r côr hwn. Ar hyn o bryd maen nhw'n edrych am fwy o faswyr a thenoriaid, felly ddynion, os ydych yn gallu canu mewn tiwn beth am ymuno? Maen nhw'n ymarfer yn Festri Capel Salem Treganna bob nos Iau am 7.30 dan arweiniad Sioned James. Am fwy o fanylion ffoniwch 07971917851.



Cafwyd Loncian Nawdd yn Rhiwbina ym mis Gorffennaf i godi arian at gronfa Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, 2001. Noddwyd y rhedwyr gan dros 200 o bobl, a chodwyd cyfanswm o £1937. Yn y llun gwelir y rhedwyr diwyd, sef Alun Guy, Sioned Guy a'i gŵr, Gordon Harold, a'i ffrind, Cory o'r Amerig, Iwan Walters, Rhodri Davies a Gwilym Roberts. Diolch iddyn nhw am eu hymdrechion ac i bawb am eu cefnogaeth ymarferol i'r achos.

## Ymwelwyr o'r Wladfa

Ymwelodd 16 o ardal Esquel a Threfelin yn yr Andes â Chaerdydd am ddwy noson ar eu ffordd i Eisteddfod Genedlaethol Llanelli, a llawer ohonynt erioed wedi bod yng Nghymru o'r blaen. Arweinydd y grŵp oedd Rini Knobel, sef chwaer René Griffith, Llandaf. Yn eu plith yr oedd Vivian a Gwenni Williams, yntau yn perthyn i Peris Williams, y mae ei weddw, Ceinwen Williams, 96 oed, yn byw yn 'Cartref' ar Lake Rd. East. Buont yn ymweld â hi ddwywaith, a hynny'n rhoi pleser mawr iddi, gan ei bod yn ysgrifennu atynt ers blynyddoedd, ond heb eu cyfarfod erioed o'r blaen.

## Arwyddo i'r Byddar

Mae Cyngor Cymru i'r Byddar newydd gyhoeddi fersiwn Gymraeg o'i lyfr arwyddo, y tro cyntaf i lyfr o'r fath ymddangos yn Gymraeg. Gellir cael copi (pris £11, ynghyd â chludiant, £3.45) trwy anfon at y Cyngor, Glenview House, Courthouse St., Pontypridd, CF37 1JY.

# Teisen Ddu Patagonia

Mewn dwy erthygl y llynedd, rhoddais ryseitiau am deisennau a oedd yn boblogaidd iawn yn ardal Nantgarw. Y tro hwn, dyma rysait Cymreig o ben draw'r byd!

Pan euthum i lawr i Batagonia yn nechrau'r saithdegau i astudio iaith y Wladfa, Mrs Adah Hughes de Fraser o Drelew a ddaeth gyda'i brawd i gwrdd â mi a'm dau gydymaith, y Dr Robert Owen Jones a'r Athro Gareth Alban Davies, a chyda hi y bûm yn aros tra oeddwn yn Nhrelew. Wedi cyrraedd y tŷ o'r maes awyr, aeth Mrs Fraser ati ar unwaith i baratoi te inni, ac wrth inni fwyta meddai wrthyf am y dorth o deisen ar y ford, 'Mi dydach yn nabod hon, yn tydach?' 'Gwn mai teisen ffwrn yw hi,' meddwn - dyna enw Nantgarw am y teisennau a elwir *farmhouse cake* yn y siopau heddiw. 'Y deisen ddu Gymreig ydi hi,' meddai Mrs Fraser a synnu'n fawr nad oeddwn innau erioed wedi clywed sôn amdani. Dysgais wedyn fod y deisen ddu yn gyffredin ymhlith Cymry Patagonia a bod ymwelwyr o weddill Argentina bob amser yn gofalu mynd ag un adref.

O Gymru yr aeth y deisen ddu i Batagonia meddai pobl wrthyf, ond nid wyf eto wedi dod ar draws neb yng Nghymru yn gwybod amdani. Mynnais y rysait ac yr wyf wedi rhoi copi i gyfaill sydd gennyf yn Aberteifi. Y mae honno wedi cael ei bod yn boblogaidd gan ei ffrindiau yno, a rhai ohonynt wedi mynnu cael y rysait. Clywais gan gyfaill o Sir Feirionnydd fod ei fam yn ei gweld yn lled debyg i deisen a oedd unwaith yn cael ei gwneud ar gyfer priodasau.

Dyma'r rysait fel y'i cefais gan Mrs Fraser:

*Deunydd:*
2 gwpanaid (1 pwys) o flawd plaen
1 cwpanaid (½ pwys) o siwgr brown tywyll
½ cwpanaid (¼ pwys) o siwgr gwyn
½ cwpanaid (¼ pwys) o fenyn
1 cwpanaid (½ pwys) o resins *neu* resins a chyrans a syltanas
½ cwpanaid (¼ pwys) o bîl melys (*candied peel*)
½ cwpanaid (¼ pwys) o gnau wedi eu torri'n fân
¼ cwpanaid o driag du
½ llwyaid dda o nytmeg
1 llwyaid dda o sinamon
ychydig ddiferion o *vanilla* a *lemon essence*
2 wy
(Yr oedd rhai yn ychwanegu ychydig o rum.)

*Dull:*
Rhoi berwad bach i'r ffrwythau a'r siwgr mewn digon o ddŵr i feddalu'r siwgr. Ychwanegu'r defnyddiau eraill a'u cymysgu'n dda. Curo'r wyau a'u hychwanegu hwythau, ynghyd â'r diferion *essence*. Dylid gofalu cadw'r cymysgedd hwn yn glaear - hynny yw, ni ddylid gadael iddo fynd yn oer - rhag i'r deisen fynd yn drwm.

*Defnyddiau ychwanegol:*
ychydig o laeth
¾ llwyaid de o bicarb
1 llwyaid de o flawd
2 lwyaid de o bowdwr codi
½ llwyaid de o halen



*Dull:*
Rhoi'r llaeth mewn sosban i'w glaearu ychydig, ynghyd â'r ¾ llwyaid de o ficarb; yna ei ychwanegu at y cymysgedd. Cymysgu'r llwyaid de o flawd mewn cwpan ynghyd â'r ddwy lwyaid de o bowdwr codi a'r hanner llwyaid de o halen. Eu cymysgu'n dda a'u hychwanegu at y toes. Iro tun teisen cynnes ag olew ac arllwys y cymysgedd iddo a'i osod mewn ffwrn araf, sef Nwy 2°. Digoni am 2½-3 awr. (Byddaf fi'n leinio'r tun â phapur *greaseproof* yn lle'i iro'n unig.)

**Ceinwen H. Thomas**

# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Pêl-rwyd



Aeth Pencampwriaeth Ieuenctid y Byd heibio. Chwaraewyd y gornestau ym mis Gorffennaf a bu llawer o sôn - a chyffro - amdani yn ein teulu ni, gan fod hyfforddwraig y wlad yn un ohonom. Ond ni bu fawr o gyffro, na chefnogaeth i'r wlad y tu allan i'n teulu ni: siomedig iawn oedd nifer y gwylwyr hyd yn oed pan chwaraeai Cymru Dde Affrig yn Athrofa'r Brifysgol yng Nghyncoed. Nid oedd mwy na chant yn edrych ar honno, a bach iawn oedd y dorf yn Rownd Derfynol y gystadleuaeth yn Arena Ryngwladol Caerdydd, pan oedd Awstralia'n fuddugol unwaith eto, yn erbyn Jamaica'r tro hwn. Mae 26 o glybiau'n chwarae yng Nghaerdydd a'r cylch, ac mae tua chant a hanner yn y wlad i gyd, ac mae gan y rhan fwyaf o'r rheiny fwy nag un tîm. Rhaid dweud na chaiff pêl-rwyd y sylw dyledus nac yn y wasg na'r radio na'r teledu fel arfer, er bod y cyfan ohonynt yn rhoi sylw digonol i'r Bencampwriaeth hon.

Seithfed oedd Cymru, y tu ôl i Awstralia (aur), Jamaica (arian), Seland Newydd (efydd), Lloegr, De Affrig a'r Alban: pe byddem wedi curo'r Alban yn lle colli o chwe gôl (30-36), gallasem orffen yn bumed. At ei gilydd yr oedd yr hyfforddwraig yn fodlon ar chwarae'r merched, a gwella a wnaethant fel yr âi'r bencampwriaeth yn ei blaen. Wedi colli i Loegr o 92 i 15 yn eu hail ornest, gwnaeth Cymru lawer yn well cyn colli i Seland Newydd o 79 i 21, ac yna i Awstralia o 83 i 19.

Mae pêl-rwyd yn gêm ardderchog sy'n gofyn am nwyfiant a deheurwydd, ac mae'r Awstraliaid yn chwarae'n anhygoel o dda; collodd Seland Newydd o ddwy gôl yn erbyn Jamaica, ond maen nhw hefyd yn arbennig o dda.

Roedd Jamaica'n gallu cadw'n agos at Awstralia yn y Rownd Derfynol hyd at y chwarter olaf, ond ni allent lwyddo yn erbyn y fath ddawn, er bod ganddynt saethwraig oedd yn chwe throedfedd a saith modfedd.

A dyna ni'n dod at graidd ein problem - taldra; yr oedd gan yr Alban, hyd yn oed, dair merch dros chwe throedfedd. Mae taldra'n fantais fawr yn y gêm yn gyffredinol, ac yn enwedig wrth amddiffyn y gôl ac wrth anelu ati. Pa mor dda bynnag fydd merched byrion, ni fyddant yn gallu goresgyn y rheiny a'u gwrthwyneba os byddant yn chwe modfedd yn dalach na nhw.

Ar adegau yr oedd safon pasio a'u lleoli'u hunain ar y cwrt yn uchel iawn ymhlith y Cymry - yn enwedig yn erbyn Awstralia a Seland Newydd, ond ni ellid hyfforddi taldra ysywaeth. Llongyfarchiadau iddynt, beth bynnag!

## Rygbi

Dechreuodd Cynghrair Cymru a'r Alban Sadwrn olaf Awst, a phan oeddwn i'n ysgrifennu'r llith hon yr oedd y clybiau wrthi'n paratoi ar gyfer y tymor newydd trwy chwarae clybiau o'r gwledydd eraill - gêmau dibwyntiau, nid "cyfeillgar" o bell ffordd. Ar 12 Awst curodd Caerdydd Gaerlŷr o 29 o bwyntiau'n erbyn 17 i ennill Tlws Jewson, cystadleuaeth rhwng pencampwyr cynghreiriau Cymru a Lloegr - nid gornest "gyfeillgar" oedd hon. Bu cwffio brwd ddwywaith yn yr hanner cyntaf, a thaclo



brwd drwyddi draw, a châi rheng flaen Caerlŷr, chwaraewyr Lloegr bob un, drafferth mawr yn y sgrymiau. Pedwar cais i ddau i Gaerdydd, a Jamie Robinson, a fu'n ddisgybl yn Ysgol Glantaf, a gafodd ei enwi'n chwaraewr gorau'r prynhawn. Yn sicr, y mae'n addawol dros ben gyda'i redeg treiddgar a'i basio gwych. Roedd yr wythwr newydd, Matthew Griffin o Went, yn amlwg hefyd, a phroffwydaf dymor da iawn i'r clwb, nid yn unig yng Nghynghrair a Chwpan Cymru, ond hefyd yng Nghwpan Heinecen. Bydd y Cwpan Cwrw'n dechrau fis Hydref â'r ornest oddi cartref yn erbyn Ulster, Sadwrn cyntaf y mis. Cawn wybod yr wythnos wedyn a fydd fy mhroffwydoliaeth yn gywir ai peidio - daw Toulouse i Barc Caerdydd.

## Pêl-droed



*Cyfnod newydd i Gaerdydd? Dyna oedd ym meddwl Howard Spriggs wedi ail ornest y tymor (1-1 gartref yn erbyn Blackpool):*

Fe wawriodd tymor pêl-droed newydd. Beth yw'r rhagolygon i Gaerdydd tybed? - llwyddiant neu fethiant? Oes yna ddyddiau gwell ar y ffordd?

Mae Sam Hammam ar fin prynu'r clwb ac yn addo, gyda chymorth y cefnogwyr, ddyfodol mwy disglair - ond y mae e eisoes wedi cyhoeddi nad ef yw achubydd y clwb. I bob golwg mae mwy o frwydfrydedd na'r llynedd. Mae'r argoelion ar y cae yn dipyn mwy addawol. Mae mwy o ymdrech, mwy o awydd i ennill, mwy o gyflymdra a'r amddiffyn, gyda dyfodiad Mark Walton (golwr), Andy Thompson (cefnwr) a David Greene (canolwr), yn dipyn mwy cadarn ac mae'r chwaraewyr yn fwy cyfforddus gyda'r patrwm o 4-4-3 na'r 5-3-2 a chwaraewyd y llynedd. Ond erys yr un hen broblem - diffyg sgorio er rheoli gêm bron ymhob agwedd - a dyma'r broblem y mae'n rhaid ei datrys cyn gynted â phosibl.

Ni wariwyd yr un ddime goch hyd yn hyn ar chwaraewyr newydd, symud yn rhad a wnaeth y tri amddiffynnwr a'r blaenwr, Paul Brayson. Mae Hammam wedi addo arian i gryfhau'r tîm ac mae angen o leiaf flaenwr arall sydd â llygad am gôl, chwaraewr ganol cae a chefnwr chwith - a dechreuad yw hyn yn unig.

Mae 'na ddigon wedi ymddangos yn y wasg am 'gyfnod newydd' i'r Clwb, ond y peth a ddaw â'r cefnogwyr yn ôl i Barc Ninian yw llwyddiant ar y cae a chanlyniadau boddhaol. Nid yw'r rhan fwyaf yn malio dim beth a ddigwydd y tu ôl i'r llenni.

Bobby Gould yw'r rheolwr newydd. Fu fawr o lwyddiant iddo fel rheolwr Tîm Pêl-droed Cymru, ond mae'i record yn tystio iddo fod yn llwyddiannus mewn partneriaeth â Hammam fel rheolwr Wimbledon, a'r gobaith yw y bydd yr un bartneriaeth eto yn dwyn ffrwyth i Gaerdydd. Amser a ddengys - a chefnogaeth ariannol o fewn rheswm.

### Dwy Fil: Dwy Olwyn



Yn ystod mis Awst bu Eluned ac Owen Rook, Rhiwbina yn beicio am wythnos o Gaerdydd i Sir Fôn - eu Sialens 2000 bersonol! - er mwyn codi arian at elusen Alzheimer. Buont yn dilyn y Llwybr Sustrans ac yn aros mewn hosteli ieuenctid ar y ffordd. Hyd yma y maent wedi codi bron £400 at yr elusen; ond nid yw'r coffrau wedi cau eto, a phetai rhai o'n darllenwyr am anfon rhodd, dylent anfon sieciau at 'Elusen Alzheimer', dan ofal Eluned ac Owen Rook, 43 Waun y Groes Ave., Rhiwbina, Caerdydd CF14 4SZ.

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

### CLECS ELLI

Aethoch chi i'r Eisteddfod eleni? Roeddwn i yno trwy'r wythnos, fel arfer. Mae'n amlwg bod pobl Llanelli yn benderfynol o gynnal Eisteddfod berffaith yn y flwyddyn 2000. Roedden nhw wedi gwneud yn siŵr bod pethau'n rhedeg yn hwylus ac yn effeithiol. Roedd digon o fysiau; doedd dim mwd; roedd enillwyr i'r Gadair ac i'r Goron ac i'r Fedal Ryddiaith; roedd cyngerdd ffarwél arall gan Dafydd Iwan; a daeth Dysgwraig y Flwyddyn yr holl ffordd o'r Wladfa. Roedd y tywydd hyd yn oed yn dda. Y broblem yw roedd hi mor berffaith, does dim llawer i'w ddweud amdani. Beth yw Steddfod heb fwd, wedi'r cwbl?

I droi at y tymor newydd, gobeithio eich bod chi wedi dod o hyd i ddosbarth yn barod ac yn edrych ymlaen at flwyddyn arall o ddysgu Cymraeg. Os na, gallwch ffonio'r rhifau yma i gael gwybodaeth am gyrsiau yng Nghaerdydd:


| | | |
|---|---|---|
| Prifysgol Caerdydd - Canolfan Dysgu Cymraeg | | |
| | (Helen Prosser) | 2087 4710 |
| Coleg Glan Hafren | (Andrew Currie) | 2025 0439 |
| Coleg y Barri | (Judy Williams) | 01446 743519 |
| Awdurdod Addysg Caerdydd | | |
| | (Siôn Lewis) | 2087 2836 |
| Awdurdod Addysg Bro Morgannwg | | |
| | (Christine Franks) | 2051 3046 |
| Cymdeithas yr Iaith Gymraeg | | |
| | (Robat ap Tomas) | 2048 6469 |
| Menter Caerdydd | (Gareth Kiff) | 2045 0529 |

**Cofiwch gyfarfodydd CYD**

Nos Fercher - Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford - 9.00
Nos Iau - Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca (*City Rd*) - 9.00
*Am fanylion pellach ffoniwch Padi Phillips - 029 2031 2293*

## Y Border Bach

**gan Hwn a Hon**



Yn draddodiadol nawr yw'r amser i blannu potiau ar gyfer y gwanwyn. Er hynny, maent yn dueddol i fod yn ddi-liw drwy'r gaeaf ac erbyn y flwyddyn newydd fe fydd rhai o'r planhigion wedi dioddef oherwydd y tywydd, ac yn edrych yn ddi-siâp a heb lawer o flodau. Gwell yw plannu potiau i'w mwynhau o nawr tan y Nadolig ac ychwanegu atynt yn y gwanwyn pan fydd amrywiaeth o flodau ar gael yn y siopau a'r rheini'n edrych yn iachach na'r rhai sydd wedi goroesi'r gaeaf yn eich gardd.

Dechreuwch gyda phlanhigion bach bythwyrdd i roi ffurf i'r trefniant, e.e. *euonymus*, *hebe*, *osmanthus* neu conifer bach, gydag iorwg i feddalu ymyl y pot. Gallwch ddefnyddio dail porffor hefyd fel *bergenia*, *ajuga* a'r saets porffor. Yna dewiswch flodau tymhorol fel *Sedum spectabile* 'Autumn Joy' neu'r chrysanthemum i flodeuo tan y rhew cyntaf ac yna llanw'r twll â pansies neu primula yn y gwanwyn. Mae grug yn effeithiol hefyd mewn trefniad cymysg, naill ai i flodeuo nawr neu rhwng Ionawr a Mawrth, e.e. *Erica darleyensis*. Os oes gennych gornel gysgodol gallwch gael cyclamen mewn bocs sil y ffenest neu'r ceirios Nadolig *Solanum capsicastrum*.

Mae gwair addurniadol yn ffasiynol ar hyn o bryd. Mae'r rhai sy'n cadw eu tyfiant yn berffaith mewn potiau gaeaf ac i'w cael mewn sawl lliw a maint, e.e. glas - *Festuca glauca* 'Elijah Blue'; efydd - *Carex comans*; melyn - *Carex* 'Evergold'; hyd yn oed du - *Ophiopogon nigrescens*. Mae'r olaf tua chwe modfedd o daldra â blodyn pinc yn yr haf. Mae'n edrych yn dda mewn pot yn gymysg ag eirlysiau.

Wrth gwrs, gallwch blannu bylbiau o dan y rhan fwyaf o'r planhigion a enwyd uchod, fel saffrwm, cenin Pedr byr, tiwlip bach, a.y.b. Fe fydd y rhain yn rhoi diddordeb ychwanegol ar ddechrau'r flwyddyn ac yn cadw i fynd tan y gwanwyn.

## LLINELLAU COLL

Llongyfarchiadau i Gwyn Briwnant Jones ar gyhoeddi *Llinellau Coll* (Gwasg Gomer, £9.95), cyfrol sy'n cynnwys lluniau o reilffyrdd Cymru yn gymysg â pheth o'r farddoniaeth a gyfansoddwyd adeg agor - a chau - sawl lein. Brodor o Fachynlleth yw'r awdur, ond mae'n byw yng Nghaerdydd ers tro bellach. Mae eisoes wedi cyhoeddi chwe llyfr yn Saesneg ar reilffyrdd Cymru, ond dyma'r gyfrol gyntaf ganddo yn Gymraeg.

Mae'r lluniau yn y llyfr yn werth eu gweld, rhai yn hen ac eraill yn dangos oes yr injan stêm yn ei gogoniant. Go brin ein bod ni heddiw'n sylweddoli cymaint o chwyldro fu dyfodiad y trên wrth alluogi pobl a nwyddau i deithio'n weddol ddidrafferth ar hyd a lled y wlad. (Efallai mai'r beic a achosodd y chwyldro o ran galluogi bechgyn i fynd i grwydro ymhell i garu, ond stori arall yw honno!)

Y lluniau tristaf yw'r rhai sy'n dangos y cledrau'n cael eu codi yn y chwedegau. Mewn ambell fan, byddwn ni heddiw yn gyrru'n ddi-hid ar hyd y tir lle'r arferai'r trenau deithio'n hamddenol braf, ac all dyn ddim ond difaru weithiau na fyddai rhywun â thipyn o weledigaeth wedi gweld yn dda eu cadw, a'n harbed rhag tagfeydd traffig.

'Yn seidings ein llên y bu'r trên ar hyd yr amser,' medd Hywel Teifi Edwards yn ei ragymadrodd nodweddiadol fyrlymus. Digon gwir, gwaetha'r modd, a rhaid dweud mai digon amrywiol yw safon y farddoniaeth y llwyddodd Gwyn Briwnant Jones i ddod o hyd iddi. Mae ambell fardd mor dalcen slic nes bod dyn yn amau bod y math anghywir o ddail neu eira wedi syrthio ar gledrau ei awen! Ar boster y Manchester & Milford Railway, er enghraifft, ceir yr odl anhygoel hon: 'Dyma gyfle am Manchester/Neu unrhyw ran o Gymru a Lloeger.' Beth ddwedai'r Meuryn, tybed?

Braf yw gallu dweud, serch hynny, fod safon y farddoniaeth yn gwella'n aruthrol wrth i'r gyfrol fynd yn ei blaen, a bod ynddi gerddi gan Ceiriog, Bobi Jones, Meurig Evans a D. Gwyn Evans - a hyd yn oed Tecwyn Ifan a'i gân i Stesion Strata.

Daw'r gyfrol ag atgofion braf i'r rheiny ohonom a welodd dipyn o ogoniant oes y trenau stêm cyn iddo ddiflannu am byth, a go brin y gwnaiff unrhyw un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* fethu â theimlo rhyw dristwch a hiraeth braf wrth fodio'r tudalennau.

Cyfrol hyfryd iawn - a diolch i Gwyn Briwnant Jones am ei llunio. Melys moes mwy!

**BERWYN PRYS JONES**

## Cofeb yng Nghellan

Daeth nifer dda ynghyd i Gellan ger Llanbedr Pont Steffan yn ystod yr haf i ddadorchuddio cofeb i'r ysgolhaig mawr, Griffith John Williams (1893-1963), a'i frawd, y gwyddonydd, addysgwr a dramodydd amlwg, David Matthew Williams (1900-70). Gweledigaeth cwmni o garedigion o gylch Llanbed, gan gynnwys Mrs Irene Williams a Dr David Thorne, oedd y gofeb, a buont wrthi yn ddiwyd yn codi arian ac yn gwneud y trefniadau ar gyfer ei chodi.

Dadorchuddiwyd y gofeb gan Elenid Jones o Gymorth Cristnogol, merch D. Matthew Williams. Ar ôl iddi sôn am y ddau frawd a'u cefndir teuluaidd, bu Dr E. Wyn James o Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd - lle y bu Griffith John Williams yn ddarlithydd ac yn athro am flynyddoedd lawer - yn annerch yn fyr ar gyfraniad yr Athro G. J. Williams fel ysgolhaig, gan bwysleisio ei safle fel un o ysgolheigion pennaf y Gymraeg, ei ddiwydrwydd a'i frwdfrydedd mawr, a'i allu diarhebol i ysbrydoli cenedlaethau o fyfyrwyr.



*Llun: Robin Griffith.*

O Gellan aethpwyd ymlaen i Lanio gerllaw, i ddadorchuddio cofeb i un arall o Gymry mawr yr ugeinfed ganrif, y llyfrgellydd Alun R. Edwards (1919-86). Ar y gofeb, o dan y disgrifiad syml ond llwythog ohono fel 'Y Cymro a'r Cristion', cerfiwyd yr englyn canlynol o waith Idris Reynolds:

Yr oedd cell y llyfrgellydd — yn rhy gul
I'r galon aflonydd;
Ei ffiniau oedd ffiniau ffydd
Y Walia hwnt i'r welydd.

Da oedd gweld nifer dda o aelodau o deuluoedd Matthew a Griffith John Williams ac Alun R. Edwards yn bresennol ar yr achlysur arbennig hwn, gan gynnwys sawl un o gyffiniau Caerdydd. Yn y llun gwelir Elenid Jones a Dr David Thorne yn ystod y dadorchuddio yng Ngellan.


# LLYS CERIDWEN

Rhiannon Bianchi, I.I.H.H.T., I.S.P.A.

Aromatherapydd

Tre'rfaenor (Grangetown)

Ffôn: 029 2022697

Ffôn Symudol: 07977 098286

# GWASG MORGANNWG

Argraffwyr

***Gwasanaeth cyflawn o bob math o argraffwaith -***

◆ Llyfrau ◆ Cylchgronau ◆ Papurau Bro ◆ Rhaglenni ◆ Posteri ◆ Tocynnau ◆ Ffurflenni Busnes a Phersonol ◆ Tocynnau Raffl ◆ Cardiau Nadolig ◆ Calendrau, *ac yn y blaen*

**Uned 27-28, Ystad Ddiwydiannol Mynachlog Nedd, Castell-nedd. SA10 7DR**

**Ffôn: 01792 - 815152**

**Ffacs: 01792 812378**

E-bost: g.morgannwg@appleonline.net

### Cyflwyno Tŷ Hafan


Tŷ Hafan ym Mro Morgannwg yw'r unig hosbis i blant yng Nghymru. Yno, daw plant sy'n ddifrifol sâl, ynghyd â'u teuluoedd, o bob rhan o Gymru, i aros yn rhad ac am ddim, er mwyn i'r teulu cyfan gael gofal ysbaid mewn awyrgylch hamddenol, tra bydd y plentyn yn cael y gofal eithaf bedair awr ar hugain.

Mae'r Tŷ yn costio tua miliwn o bunnoedd bob blwyddyn i'w gynnal, ac y mae'n dibynnu am ei barhad ar lu o wirfoddolwyr i godi arian ar ei gyfer. Pe baech yn medru cynorthwyo mewn rhyw fodd, dylech gysylltu â Mr Gwynallt Bowen, Swyddfa Apêl Tŷ Hafan, Tŷ Hamard, Heol Caerdydd, Y Barri, Bro Morgannwg, CF63 2BE (Ffôn: 01446-739993; e-bost: gwynallt.bowen@ntlworld.com).

Mae Mr Bowen ar gael i roi cyflwyniad i waith Tŷ Hafan, yn Gymraeg neu Saesneg, gan gynnwys arddangosfa fideo, i fudiadau, cymdeithasau neu ysgolion.

### Ysgrifennydd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina

Daeth dros ddeugain ynghyd i Swper Pentymor Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina yng Nghlwb y 'Rec', nos Lun, 3 Gorffennaf. Yn ystod y noson cyflwynwyd rhodd i Haydn Jones, Ysgrifennydd y Gymdeithas dros y saith mlynedd diwethaf, fel arwydd o werthfawrogiad o'i waith. Yr Ysgrifennydd newydd yw Beryl Jenkins.




CYFRES NEWYDD

LLAFUR CARIAD

DRAMA WLEIDYDDOL FAWR


9.00
Bob nos Sul
Yn cychwyn Tachwedd 5

TRANSL888/889
www.s4c.co.uk

S4C

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NOFEL Y MIS



Wyt ti wedi darllen Nofel y Mis?

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
029 2066 6222

# Ysgol Mynydd Bychan

## PRIF WEITHIWR CHWARAE

*(20 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig)*

Cyflog : £7.50 yr awr

Mae angen gweithwyr chwarae cymwysedig sy'n rhugl yn y Gymraeg i weithio yng Nghynllun Gofal Ar Ôl Oriau Ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Mynydd Bychan, Caerdydd.

## GWEITHIWR CHWARAE

*(20 awr yr wythnos, yn ystod y tymor yn unig)*

Cyflog : £6.25 yr awr

Am ragor o fanylion cysylltwch â:
**Gareth Kiff**
**MENTER IAITH CAERDYDD**
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath,
Caerdydd CF24 3AJ
Ffôn: 029 20 450529

# Talon Cymru Cyf.

Angen cyfrifiadur neu feddalwedd?
I'r plant / cartref / busnes / swyddfa?

Am gyngor anibynnol
a gwasanaeth proffesiynnol
Ffôn 029 2055 5978
e.bost Wyn.Talon@BTinternet.com

# MATHEMATEG

**Tiwtor graddedig a phrofiadol iawn**
**(CA2, CA3, TGAU a Safon Uwch)**

**Ffôn:**
**029 20498195**

# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar **029 20868208**
neu **0468 973229**

## AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

# Geraint B. Llewelyn

LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)

**291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED,**
**CAERDYDD, CF23 6PA**
**FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309**

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORICHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL